# Mynegai i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anableddau ac Anghenion Ychwanegol

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021- 2023




Teuluoedd yn Gyntaf Families First

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

---

*Becky Wickett - Rheolwr Tîm Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol*

*Lyndsey Richards - Swyddog Cymorth y Mynegai a'r GGiD*

---

# CYNNWYS

*(I lywio i adran benodol, cliciwch ar yr eicon yn y gwaelod ar y dde)*


1. Cefndir
2. Beth yw'r Mynegai?
3. Crynodeb o Gofrestriadau'r Mynegai 2023
4. Prif Gyflawniadau 2021-23
5. Blaenoriaethau ar gyfer 2023-24
6. Hyrwyddo'r Mynegai
7. Ymholiadau i'r Mynegai
8. Adborth
9. Ffeithiau a Ffigurau am Blant a Phobl Ifanc ar y Mynegai
10. Summary
11. Manylion Cyswllt


# 1. Cefndir

**Mae Adroddiad Blynyddol y Mynegai hwn yn cwmpasu'r ddwy flynedd ddiwethaf, o fis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2023. Bydd yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r Mynegai dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac yn cymharu cofrestriadau a gwybodaeth a gasglwyd yn ystod cofrestriadau ar wahân ar gyfer pob blwyddyn.**



Mae Deddf Plant 1989 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl ddarparwyr gwasanaeth gydweithio'n agos gyda'i gilydd, mewn partneriaeth â rhieni, i sefydlu system i asesu anghenion plant a phobl ifanc gydag anableddau ac anghenion ychwanegol, ac anghenion eu teuluoedd. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu'r hyn mae'r Ddeddf yn ei alw'n 'gofrestr' - 'Y Mynegai' yw'r term a ddefnyddir gan Fro Morgannwg.

Lansiwyd y Mynegai i gychwyn yn y Fro ym mis Ebrill 2005, a chafodd ei ail-lansio ym mis Ebrill 2012 drwy gymorth ariannol y grant Teuluoedd yn Gyntaf. Mae Swyddog y Mynegai yn sefyll o fewn fframwaith ehangach y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (FIS). Mae Grant Teuluoedd yn Gyntaf yn ariannu swydd Swyddog y Mynegai Dros Dro a chynhyrchu cylchlythyr y Mynegai.

Diben y Mynegai yw rhoi gwybodaeth uniongyrchol i deuluoedd sydd â phlant a phobl ifanc ag anableddau ac anghenion ychwanegol am wasanaethau, clybiau a gweithgareddau lleol. Bydd teuluoedd sydd wedi cofrestru'n rhan o'r Mynegai yn cael ein cylchlythyr – 'y Mynegai' - a negeseuon rheolaidd am weithdai, cyngor ar fudd-daliadau, rhwydweithio, clybiau a gwasanaethau, cyfleoedd hyfforddi, cymorth i ofalwyr ac unrhyw wybodaeth berthnasol gan asiantaethau eraill. Gall teuluoedd ofyn am wybodaeth benodol a allai fod o ddiddordeb iddynt. Mae'r Mynegai hefyd yn

ffordd i rieni gael llais – gallant gysylltu â ni'n uniongyrchol ac rydym yn ymgynghori â nhw drwy arolwg ac e-fwletinau.

Mae'r Mynegai hefyd yn rhoi cymorth i ddarparwyr gwasanaeth o ran cynllunio eu gwasanaethau a'u cyllidebau. Gall roi darlun cliriach o faint o blant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol ac anableddau sydd yn ardal yr awdurdod lleol. Bydd cael darlun cliriach o lefel yr angen yn galluogi'r asiantaethau i gydweithio i gynllunio gwasanaethau gwell.

Cyfeiriwyd y plant a'r bobl ifanc sydd wedi'u cynnwys yn y Mynegai gan eu rhiant / gofalwr, ymwelydd iechyd, gweithiwr cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Mae'r wybodaeth a gesglir yn gofnod ffeithiol o anghenion y plentyn, ac mae'r wybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol ar system ddiogel y Tîm Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau yn ymwneud â'r adroddiad hwn, cysylltwch â:


Swyddog y Mynegai

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_with_additional_needs/the-index/The-Index.aspx

0800 5871 014

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_with_additional_needs/the-index/The-Index.aspx


## 2. BETH YW'R MYNEGAI?

- Y Mynegai yw cofrestr wirfoddol Bro Morgannwg o blant a phobl ifanc sydd ag anableddau neu anghenion ychwanegol.
- I fod yn rhan o'r Mynegai mae angen i'r plentyn / person ifanc:
  - fod wedi cael diagnosis o anabledd, yng nghanol cael diagnosis neu ag anghenion ychwanegol parhaol wedi'u cadarnhau
  - fod yn 18 oed neu iau
  - fod yn byw ym Mro Morgannwg
- Nod y Mynegai yw cynnig gwybodaeth i:
  - Deuluoedd - gan roi'r newyddion diweddaraf i deuluoedd am wasanaethau, cymorth a gweithgareddau
  - Gweithwyr Proffesiynol - yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i weithwyr proffesiynol am anghenion plant a phobl ifanc ag anableddau neu anghenion ychwanegol
  - Sefydliadau – hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth presennol
- Mae'r Mynegai yn bwynt cyswllt ar gyfer teuluoedd a gweithwyr proffesiynol

## 3. CRYNODEB O GOFRESTRIADAU'R MYNEGAI 2023

- **1,013** o blant a phobl ifanc wedi'u cofrestru ar Y Mynegai ym mis Mawrth 2023

- **115** o gofrestriadau newydd i'r Mynegai yn 2021-22 a **164** o gofrestriadau newydd yn 2022-23, sy'n gynnydd o **43%**
- **97** o blant a phobl ifanc wedi'u dadgofrestru o'r Mynegai, gan eu bod wedi troi'n 18 oed, wedi symud o'r ardal neu wedi gofyn am gael eu dadgofrestru.
- **682** o adolygiadau wedi'u cynnal
- Mae'r nifer mwyaf o atgyfeiriadau i'r Mynegai wedi dod o Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (**19%**), ac ymwelwyr iechyd yn dynn ar ei ôl (**18.5%**). Bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau o'r Llinell Gyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd mwyafrif y cofrestriadau newydd **(53%)** yn wryw.
- Mae **58%** o'r rheini sy'n rhan o'r Mynegai yn y byw y Barri
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae bron i hanner yr holl gofrestriadau newydd **(46%)** wedi cofnodi ASA fel y prif reswm dros gofrestru
- Wrth edrych ar bob rheswm dros gofrestru, dros y flwyddyn ddiwethaf, y rheswm mwyaf cyffredin dros gofrestru oedd ASA (**106 o gofrestriadau, 67%**). Dilynwyd hyn gan Anawsterau Cyfathrebu a Chymdeithasu (**96 o gofrestriadau, 60%**) ac Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol (**89 o gofrestriadau, 59%**). Y rhain hefyd oedd y rhesymau mwyaf cyffredin dros gofrestru yn 2021-22.
- Mae tîm y GGiD wedi derbyn **372** o ymholiadau gan rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn gofyn am wasanaethau a chymorth i blant ag anghenion ychwanegol dros y flwyddyn ddiwethaf.



## 4. CYFLAWNIADAU ALLWEDDOL 2022-2023

- *279 o blant a phobl ifanc wedi cofrestru ar y Mynegai yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n gynnydd o 48% ers y ddwy flynedd flaenorol.*

- Wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i deuluoedd am newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar ôl y pandemig, yn ogystal â'r gwasanaethau cymorth oedd ar gael.
- Cynhyrchwyd cylchlythyr y Mynegai ar ffurf copi caled yn y gymuned yn ogystal â llyfr troi digidol.

- Cynhyrchwyd hysbyseb Cyfnewid Sain Ddigidol gyda Global Limited, i hyrwyddo'r GGiD i bobl sy'n ffrydio cerddoriaeth, radio, podlediadau ac ati, yn ogystal â hysbyseb radio ar Bro Radio.
- Comisiynwyd animeiddiad i egluro a hyrwyddo'r Mynegai.
- Recordiwyd Sesiwn holi ac ateb gyda gweithwyr addysg proffesiynol i egluro gweithrediad y Cod ADY newydd, a gwell cydweithio â CADY.
- Gwell cydweithio â Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf - llwybr atgyfeirio ac allgymorth a chynyddu atgyfeiriadau o 3 yn 2022 i 51 yn 2023.
- Ffurflen gofrestru ar-lein symlach newydd mewn ymgynghoriad â rhieni a gweithwyr proffesiynol, a chronfa ddata gefn symlach

# 5. BLAENORIAETHAU 2023 – 2024

- Hyrwyddo ffurflen gofrestru ar-lein newydd a'i hadolygu mewn ymgynghoriad â rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol.
- Ymchwilio i'r porth ADY a'r potensial i CADY gyfeirio plant i'r Mynegai
- Hyrwyddo gwefan Gwybodaeth Gofal Plant Cymru (yn gysylltiedig â Dewis Cymru) a'r teils newydd sy'n dangos gwasanaethau, cymorth a gweithgareddau i blant ag anableddau, i rieni a gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â darparwyr i ychwanegu eu gwybodaeth.
- Ymchwilio i lyfrau troi digidol a gwella hygyrchedd cynnwys digidol, gan gynnwys adolygu tudalennau gwe'r Mynegai
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu allgymorth mewn ysgolion a digwyddiadau cymunedol
- Symud cofrestr y Mynegai i daenlen newydd a gwneud cynnydd gyda meddalwedd Power Automate.

# 6. HYRWYDDO'R MYNEGAI LEDLED Y FRO

## 6.1 ALLGYMORTH

Yn 2021, ail-ddechreuodd allgymorth yn araf wrth i ni drosglwyddo o fyd o gyfyngiadau i hinsawdd wedi'r pandemig. Aethom i gyfres o sioeau teithiol cymunedol ledled y Fro, gyda'r Tîm Datblygu Chwarae, gan siarad â rhieni am eu profiadau yn ystod y pandemig, yr hyn yr hoffent ei weld yn eu cymuned o ran chwarae, gofal plant ac unrhyw faterion eraill y mae teuluoedd yn eu hwynebu. Gwnaethon ni ailddechrau ein presenoldeb wythnosol yn Ysbyty Llandochau ac yn ddiweddarach ymunodd ein cydweithwyr ar Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf, gan gydlynu ein presenoldeb â chleifion newydd a phresennol sy'n mynychu'r clinigau niwroddatblygiadol.




Erbyn haf 2022, roedd cymaint mwy o ddigwyddiadau a gweithgareddau y gallem fod yn bresennol ynddynt i ymgysylltu â rhieni a theuluoedd. Defnyddiwyd cyllid Haf o Hwyl gan Lywodraeth Cymru i hwyluso dros 140 o weithgareddau am ddim i blant a phobl ifanc a churadodd Tîm GGiD raglen wyliau ar-lein Haf o Hwyl, a gafodd dros 23,000 o olygfeydd.

Yn ddiweddarach, cysylltodd Swyddog y Mynegai ag Addysgu i Oedolion a mynychodd sesiynau teuluol yn yr ysgolion yn y Barri, sydd wedi rhoi cyfle gwych i hyrwyddo'r Mynegai i rieni a gofalwyr.




## 6.2 HYRWYDDO DIGIDOL

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar hyrwyddo technoleg ddigidol, sydd wedi cynnwys y canlynol:

**Fideo Holi ac Ateb:**

Recordiodd Swyddog y Mynegai fideo Holi ac Ateb gyda gweithwyr addysg proffesiynol, yn trafod gweithredu'r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd a sut mae'n effeithio ar rieni. Cafodd hyn ei hyrwyddo'n eang. Mae'r fideo wedi'i wylio dros 560 o weithiau ar You Tube a chyrhaeddodd y neges ar Facebook bron i 10,000 o bobl: [Symud i'r system ADY newydd - i rieni, gofalwyr a Gweithwyr proffesiynol - YouTube]

Mae'r Mynegai yn derbyn ymholiadau gan rieni am y Cod a'i effaith arnynt, a gall weithredu fel byffer ar gyfer Addysg, gan leihau'r angen i uwchgyfeirio ymholiadau iddynt.



**Y Cyfryngau Cymdeithasol:**

Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi parhau'n offeryn marchnata a chyfathrebu effeithiol ac mae gennym dros 4,000 o ddilynwyr ar Facebook, sy'n gynnydd o 1000 o ddilynwyr ers dwy flynedd yn ôl. Y swydd fwyaf llwyddiannus oedd Rhaglen Gweithgareddau'r Gaeaf Llawn Lles, a gyrhaeddodd dros 12,000 o bobl ac a arweiniodd at bron i 1000 o gliciau ar y wefan a 48 o ddilynwyr newydd i'r dudalen.




**Animeiddiad:**

Gwnaethom gomisiynu fideo i helpu egluro'r Mynegai i rieni a gofalwyr mewn ffordd weledol a hygyrch https://youtu.be/EX5nSx082PU Rydym wedi defnyddio hyn ar y cyfryngau cymdeithasol, ar y wefan ac yn ystod cyflwyniadau i weithwyr proffesiynol. Mae wedi ei wylio dros 400 o weithiau.

**Radio a ffrydio byw:**

Gwnaethom gomisiynu hysbyseb radio drwy Bro Radio, sef yr orsaf radio leol ar gyfer Bro Morgannwg. Gwnaethom gomisiynu Global Ltd hefyd gyda Chyfnewidfa Hysbyseb Digidol fel ffordd arloesol o dargedu ein cynulleidfaoedd. Hyrwyddodd yr hysbyseb y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, gan gynnwys y Mynegai a gwasanaethau a chymorth i deuluoedd plant ag anableddau. Cafodd ei darlledu am ddau fis a chyrhaeddodd bron i 6,000 o bobl.

**E-fwletinau:**


Rydym yn anfon e-fwletinau at deuluoedd rhwng y cylchlythyrau chwarterol, sy'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau, grwpiau, gweithgareddau ac ati. Roedd rhai erthyglau yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a lles rhieni sy'n ofalwyr, e.e. Grantiau Argyfwng Gofalwyr, Gwasanaeth Allgymorth Dros Dro, Cymorth Ar-lein a gweithgareddau 'Amser i Fi' fel Ymwybyddiaeth Ofalgar, Crefft er Lles ac ati.

**Gwefan:**


Mae gan y Mynegai ei dudalennau gwe ei hun ar wefan y Cyngor: www.valeofglamorgan.gov.uk/TheIndex

Gall rhieni a gweithwyr proffesiynol gael mynediad i'r daflen addas i deuluoedd sy'n esbonio'r Mynegai a manteision cofrestru. Gallant hefyd lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein, gweld hen gylchlythyrau ac mae gennym adran newydd Pontio: Dechrau Cynllunio ar gyfer Fy Nyfodol.

Mae tudalennau gwe'r Mynegai yn rhan fo adran fwy o'r enw 'Plant ag Anghenion Ychwanegol'.




### 6.3 Cylchlythyr Y Mynegai




Rydym bellach yn cynhyrchu [cylchlythyr y Mynegai](#) ddwywaith y flwyddyn yn yr Haf a'r Gaeaf ac yn cynhyrchu copi caled, yn ogystal â llyfr troi digidol. Mae'r copi caled ar gael yn y gymuned ac anfonir copïau at CADY yn yr ysgolion, ymwelwyr iechyd, meddygfeydd, llyfrgelloedd, deintyddion a phartneriaid allweddol.

Y nod yw sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i gynifer o deuluoedd â phosibl, a hefyd annog teuluoedd i gofrestru ar gyfer y Mynegai.

## 7. YMHOLIADAU

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd wedi derbyn 372 o ymholiadau gan rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn gofyn am wasanaethau a chymorth i blant ag anghenion ychwanegol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Mae hyn yn gynnydd o 78 o ymholiadau o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Cofrestrodd mwyafrif o'r rhain ar gyfer y Mynegai. Mae ymholiadau'n amrywio o riant sy'n pryderu am ei phlentyn yn yr ysgol i riant sy'n dymuno gwybod mwy am grwpiau a gweithgareddau. Rydym hefyd yn derbyn ymholiadau gan weithwyr proffesiynol fel CADY ac ymwelwyr iechyd.

## 8. ADBORTH

Gofynnir am adborth ar adeg ymholiad neu ar ôl cysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Cysylltir â'r sawl sy'n ymholi i ofyn am adborth ar y gwasanaeth mae wedi'i gael gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac yn fwy penodol, gan y Mynegai.

Mae'n anodd cael adborth ac yn aml byddwn yn cysylltu â rhiant/gofalwr ac nid ydynt eto wedi defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd, ac felly mae'n anodd mesur effaith y Mynegai ar deulu.

- Roedd 97% o'r rhai a ymatebodd yn hapus gyda'r gwasanaeth.
- Dywedodd 94% y byddent yn argymell ein gwasanaeth i bobl eraill.
- Dywedodd 61% fod yr wybodaeth a ddarparwyd wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol iddyn nhw a'u teulu.

'Dwi wrth fy modd yn cael y Mynegai!  Rwy'n gwneud paned o goffi ac yn eistedd yma ac yn darllen popeth.  Argraffiad arall yn llawn cynnwys a chyfweliadau gwych ac ati.

Roeddwn i wir yn hoffi’r rhieni’n sgwrsio am ba mor bwysig yw TeenScheme iddyn nhw.  Syniad da - mae’n profi pa mor bwysig yw'r gwasanaethau hyn - hir oes iddyn nhw!

Rwy’n edrych ymlaen at y rhifyn nesaf

Gan gyfeirio at y Fideo Holi ac Ateb am ADY: Er nad ydw i'n arbenigwr ar y mater hwn - roeddwn i'n meddwl bod y fideo yn wych! Byddaf i’n sicr yn annog fy ffrindiau i wylio, hysbysu a gweithredu ar ran eu mab hyfryd. Dalier ati gyda’r gwaith gwych - mae eich angerdd yn disgleirio unwaith eto!

'Newydd iawn i bopeth gan fod y plentyn wedi ei gyfeirio i’r gwasanaeth niwroddatblygol yn ddiweddar.  Roedd y broses gofrestru yn hawdd iawn, ac yn seiliedig ar y profiad hyd yn hyn mae'n teimlo ei fod yn cael ei gefnogi gan y gwasanaeth. Roedd y cylchlythyr a gefais wrth gofrestru yn ddefnyddiol iawn, ble arall fyddech chi'n cael ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau sy'n addas i anghenion ein plant yn ein hardal leol?!'

'Proses gofrestru gyflym a hawdd (Y Mynegai), gwasanaeth addysgiadol iawn, mae'r bobl dwi wedi siarad â nhw yn garedig iawn ac nid ydyn nhw’n beirniadu, sy'n beth mawr gan fy mod i’n teimlo beirniadaeth yn aml. Yn dangos dealltwriaeth yn fawr hefyd."

'Yn falch o dderbyn gwybodaeth am grwpiau cymorth i rieni wrth gofrestru ar gyfer y Mynegai. Daeth drwodd yn gyflym ar ôl cofrestru.  Mae mor galonogol gwybod bod gwasanaeth yn gwneud y gwaith chwilio i ni oherwydd ni fyddai gen i syniad beth sydd ar gael fel arall… na beth sy'n addas ar gyfer anghenion fy mhlentyn.'

'Newydd iawn i'r Mynegai, dwi wedi dechrau derbyn y cylchlythyrau a'r e-byst. Maen nhw’n addysgiadol iawn ac yn addas ar gyfer oedran ac anghenion fy mhlentyn. Dim ond wedi cofrestru ers ychydig o amser ond yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth hyd yma a byddwn yn bendant yn eich argymell i eraill yn yr un sefyllfa â mi.'

"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Roedd cofrestru'n gyflym ac yn hawdd. Mae mor galonogol gwybod bod y cylchlythyrau'n dod mewn pryd ar gyfer gwyliau ysgol gan fy mod i wedi treulio cymaint o amser yn chwilio yn y gorffennol ac yn cyrraedd nunlle. Rwy'n gwybod y bydd y gwasanaethau hyn yn deall fy sefyllfa.’


# 9. FFEITHIAU A FFIGURAU AM BLANT A PHOBL IFANC AR Y MYNEGAI

## 9.1 – COFRESTRIADAU

Mae 1,013 o blant wedi’u cofrestru ar y Mynegai ac mae'r siart isod yn dangos nifer y cofrestriadau newydd, dadgofrestriadau a chyfanswm y cofrestriadau dros y pum mlynedd diwethaf. Roedd gostyngiad yn nifer y cofrestriadau yn 2020-21 oherwydd pandemig COVID, ond ers hynny bu cynnydd sylweddol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd y nifer uchaf o gofrestriadau 164, o'i gymharu â 115 y flwyddyn flaenorol. Gallwn weld isod mai'r prif reswm dros hyn yw'r cynnydd mewn atgyfeiriadau gan dîm Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae 97 o blant wedi dadgofrestru a'r prif reswm yw eu bod wedi cyrraedd 18 oed. Yna gofynnwn a hoffent fod ar ein rhestr bostio pontio a byddant yn dal i dderbyn ein cylchlythyrau a'n e-fwletinau. Mae 32 o bobl ifanc ar y rhestr hon ar hyn o bryd.

***Siart 1: Nifer y plant a’r bobl ifanc a gofrestrwyd ar y Mynegai dros y pum mlynedd diwethaf***




## 9.2 ADOLYGIADAU

Gellir cynnal 'Adolygiad' o leiaf bob tair blynedd, neu'n gynt os bydd rhiant yn cysylltu â ni i ddiweddaru manylion. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, adolygwyd manylion 682 o blant.


## 9.3 ATGYFEIRIADAU

Rydym yn gofyn i deuluoedd ble y clywsant am y Mynegai ac mae rhai gweithwyr proffesiynol yn atgyfeirio plant yn uniongyrchol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, daeth y nifer uchaf o atgyfeiriadau o Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (54 o atgyfeiriadau), a’r Ymwelydd Iechyd/ Ymwelydd Iechyd Anghenion Arbennig yn agos ar ei ôl (52 o atgyfeiriadau) a'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (47 o atgyfeiriadau).

Wrth gymharu'r ddwy flynedd ddiwethaf, mae atgyfeiriadau’n parhau'n weddol gyson. Fodd bynnag, bu cynnydd enfawr mewn atgyfeiriadau o’r Llinell Gyngor, gan mai dim ond 3 atgyfeiriad a gafwyd yn 2021-22, o'i gymharu â 51 yn 2022-23.

Mae Swyddog y Mynegai wedi gweithio'n agos gyda Rheolwr Tîm y Llinell Gyngor a'r Uwch Swyddog Cymorth System ac mae atgyfeiriadau bellach yn dod drwodd yn awtomatig i Swyddog y Mynegai drwy SWGCC, platfform rhannu gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn dilyn sgwrs ac asesiad cychwynnol y rhiant/gofalwr gyda Chynghorydd y Llinell Gyngor, trafodir y Mynegai ac os hoffent dderbyn gwybodaeth barhaus am wasanaethau a chymorth, gellir eu hatgyfeirio i Swyddog y Mynegai. Mae'r ffordd newydd hon o weithio yn lleihau adnoddau staff, dyblygu ac mae'n wasanaeth mwy effeithlon i'r rhiant/gofalwr.

*Siart 2: Ffynhonnell atgyfeiriadau i'r Mynegai 2021-23*




## 9.4 YSTOD OEDRAN A RHYW


Mae mwyafrif y plant (683, 67%) sydd wedi'u cofrestru ar y Mynegai yn wryw.

Yn y flwyddyn ddiwethaf roedd 62% o'r cofrestriadau newydd yn wryw, 37% yn fenyw ac 1% yn nodi 'mae'n well gen i beidio â dweud'.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhan fwyaf (58%) o gofrestriadau newydd rhwng 4-10 oed.

- 22 o blant 0-3 oed
- 96 o blant 4-10 oed
- 46 o blant 11-18 oed

*Siart 3: Ystod oedran plant a phobl ifanc ar y Mynegai*




## 9.5 ETHNIGRWYDD

Mae 76.1% o'r plant yn wyn, nid yw 19.5% wedi datgelu eu hethnigrwydd ac mae 4.3% (cyfanswm o 44 o blant) yn dod a gefndir ethnig lleiafrifol. Mae Cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi mai dim ond 5.4% o boblogaeth y Fro sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol.

## 9.6 DADANSODDIAD DAEARYDDOL


Mae'r mwyafrif o blant ar y Mynegai (58%) yn byw yn Y Barri, mae 24% yn byw yng Ngorllewin y Fro a'r Fro Wledig ac mae 18% yn byw yn Nwyrain y Fro.

***Siart 4: Lleoliad plant a phobl ifanc ar y Mynegai***




Mae'r map isod yn dangos cofrestriadau'r Mynegai fesul ward. Mae gan y wardiau sydd wedi'u lliwio'n fwy tywyll nifer uwch o gofrestriadau ar y Mynegai. Mae gan rai wardiau yn y Barri a Llanilltud Fawr y nifer uchaf o gofrestriadau. Tra bod gan wardiau gwledig y nifer isaf o gofrestriadau. Bu nifer sylweddol o ddadgofrestriadau yn wardiau Gwenfô, Sain Nicolas a Llancarfan dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellid targedu mwy o hyrwyddo at yr ardaloedd hyn.

*Siart 5: Map o blant a phobl ifanc ar y Mynegai*





## 9.7 PRIF RESWM DROS GOFRESTRU

Wrth gofrestru ar gyfer y Mynegai, gofynnir i rieni / gofalwyr nodi un prif reswm dros gofrestru ynghyd â rhestru unrhyw anawsterau / anableddau cysylltiedig eraill.

Dylid nodi y bydd y rhiant yn datgan anabledd ei blentyn ar sail diagnosis (os oes diagnosis), a'u canfyddiad o'r anabledd a sut mae'n effeithio ar y plentyn/person ifanc a'r byd o'i gwmpas.


Mae'r siart isod yn dangos mai'r rheswm mwyaf cyffredin dros gofrestru ar gyfer y Mynegai yw Anhwylder y Sbectrwm Awtistig (391 o gofrestriadau, 39%). Dilynir hyn gan 'Anawsterau Ymddygiadol / Emosiynol' (174 o gofrestriadau, 17%).

*Siart 6: Prif reswm dros gofrestru ar gyfer y Mynegai*




Gallwn gymharu cofrestriadau newydd dros y tair blynedd diwethaf, i weld a yw'r prif resymau dros gofrestru yn newid. Mae'r siart isod yn dangos y bu cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau ar gyfer ASA, a oedd yn cyfrif am 46% o'r holl gofrestriadau newydd yn 2022-23, ac anawsterau ymddygiadol/emosiynol. Bu cynnydd bach hefyd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer anawsterau lleferydd/iaith, anabledd dysgu, ac anawsterau cyfathrebu/cymdeithasu.

*Siart 7: Prif Reswm dros gofrestru ar gyfer y Mynegai dros y tair blynedd diwethaf*





## 9.8 POB RHESWM DROS GOFRESTRU

Er bod teuluoedd yn nodi'r prif reswm dros gofrestru, mae gan lawer o'r plant a'r bobl ifanc fwy nag un math o anabledd / anhawster sy'n effeithio ar eu bywydau. Gofynnir i deuluoedd ddatgan yr holl resymau dros gofrestru. Byddwch yn ymwybodol bod hyn yn cynnwys plant y mae'r rhiant neu'r gweithiwr proffesiynol wedi dweud eu bod yn cael eu hasesu ar gyfer anabledd penodol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd 106 o gofrestriadau (67% o'r holl gofrestriadau) ASA yn rheswm dros gofrestru. Dilynwyd hyn gan anawsterau cyfathrebu/cymdeithasu, a oedd yn cyfrif am 96 o'r cofrestriadau (60%) ac yna anawsterau ymddygiadol/emosiynol, a oedd yn cyfrif am 89 o'r cofrestriadau (56%).

Mae'r siart ganlynol yn dangos hyn yn fwy manwl.

*Siart 8: Pob rheswm dros gofrestru ar gyfer y Mynegai yn 2022-23*




## 9.9 YR WYBODAETH Y GOFYNNWYD AMDANI

Wrth gofrestru, rydym ni'n gofyn a hoffai'r teulu unrhyw wybodaeth i'w cefnogi nhw a'u plentyn. Roedd amrywiaeth enfawr o geisiadau gan gynnwys: gwasanaethau cymorth i deuluoedd, grwpiau cymorth, gwybodaeth am fudd-daliadau, gweithgareddau a chlybiau chwaraeon cynhwysol, gwasanaethau gofal plant a seibiant, asesiadau rhieni / gofalwyr, cymorth i ofalwyr ifanc, y system ADY newydd a chymorth annibynnol.

## 9.10 GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Mae gan 183 o blant ar y Mynegai weithiwr cymdeithasol (18%) ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae gan 12 o blant a gofrestrodd weithiwr cymdeithasol (7% o'r holl gofrestriadau).

Mae pob rhiant a gofalwr yn cael gwybodaeth am gael asesiad rhiant-ofalwr i asesu ei anghenion ei hun.

## 9.11 ADDYSG

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('y Ddeddf')**

Ei nod yw creu:

- Fframwaith deddfwriaethol unedig i gefnogi pob plentyn o oedran ysgol gorfodol neu iau gydag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac i gefnogi pobl ifanc gydag ADY sydd yn yr ysgol neu mewn addysg bellach (AB)

- Proses integredig a chydweithredol o asesu, cynllunio a monitro sy'n hwyluso ymyriadau cynnar, amserol ac effeithiol

- System deg a thryloyw ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor ac ar gyfer datrys pryderon ac apeliadau

- Disgwylir y bydd y system ADY a nodir yn y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llawn dros gyfnod o dair blynedd Disgwylir y bydd y cyfnod gweithredu yn rhedeg o fis Medi 2021 tan fis Awst 2024.

- Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd y system ADY yn gweithredu ochr yn ochr â'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) bresennol, a fydd yn cael ei diddymu'n raddol yn ystod y cyfnod.

Mae modd gweld rhagor o wybodaeth yma: Y system Anghenion Dysgu Ychwanegol: canllaw i rieni

---

*Mae 237 o blant ar y Mynegai sydd â Datganiad neu CDU (23%) ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 30 o rieni fod gan eu plentyn Ddatganiad neu CDU (19% o'r cofrestriadau newydd).*

---

### 9.12 CYFATHREBU

---

*Mae 78 o blant ar y Mynegai (8%) yn defnyddio System Gyfathrebu drwy Gyfnewid Lluniau, 38 o blant (4%) yn defnyddio Makaton, a 7 o blant (0.7%) yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.*

---

## 10. CRYNODEB

Fel y gwelir, mae'r Mynegai yn darparu gwasanaeth hanfodol i deuluoedd â phlant ag anableddau neu anghenion ychwanegol, gan sicrhau eu bod yn cael gwybodaeth gywir a chyfredol, am wasanaethau a chymorth y gallant gael gafael arnynt.

Mae'r Mynegai yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-18 oed ac mae'n cwmpasu ystod eang o ofynion unigol. Felly, un o'r heriau yw sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i deuluoedd o fudd i'w sefyllfa benodol. Er mwyn monitro hyn rydym yn cael adborth ar ein gwasanaeth ac yn cynnal arolwg bob blwyddyn.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cofrestriadau a'r gallu i wneud llawer mwy o waith allgymorth i ymgysylltu â theuluoedd.

## 11. MANYLION CYSWLLT


Swyddog y Mynegai

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Swyddfa'r Dociau

Heol yr Isffordd

Y Barri

Bro Morgannwg

CF63 4RT

0800 5871014

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_with_additional_needs/the-index/The-Index.aspx



https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/social_care/children_and_young_people/children_with_additional_needs/the-index/The-Index.aspx



Facebook @VOGFIS Twitter @ValeFIS


**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English**